**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

**National Assembly for Wales**
Public Accounts Committee

Clare Pillman
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd CF24 0TP

20 Gorffennaf 2018

Annwyl Claire,

**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2017-18 Cyfoeth Naturiol Cymru**

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 9 Gorffennaf a drafodwyd mewn sesiwn breifat yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 16 Gorffennaf.

Yn y cyfarfod, roedd siom gan y Pwyllgor glywed gan yr Archwilydd Cyffredinol ei fod wedi cymhwyso cyfrifon 2017-18 Cyfoeth Naturiol Cymru. Fodd bynnag, roedd yn bleser nodi'r gwaith rydych wedi'i ddechrau i fynd i'r afael â phroblemau Cyfoeth Naturiol Cymru a'r camau rydych wedi'u cymryd ers dechrau yn y swydd yn gynharach eleni.

Gwyddoch fod y Pwyllgor wedi craffu ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015/16 Cyfoeth Naturiol Cymru - a gymhwyswyd hefyd - a gwnaethom gyhoeddi ein Hadroddiad ym mis Mehefin 2017. Mae'r Pwyllgor wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am y cynnydd y mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'i wneud wrth ymdrin ag argymhellion y Pwyllgor ynghyd â gweithredu'r mesurau a amlinellwyd yn eich Cynllun Gweithredu ac mae'r cynnydd a wnaed wedi bod yn galonogol. Fodd bynnag, mae materion llywodraethu ynghylch gosod contractau gwerthu coed yn parhau i'n pryderu.

O ganlyniad, mae'r Pwyllgor wedi cytuno ei fod am eich gwahodd i un o gyfarfodydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus er mwyn trafod Adroddiad Blynyddol a

Chyfrifon 2017/18 Cyfoeth Naturiol Cymru. Rwy'n ymwybodol bod Clercod y Pwyllgor wedi siarad â'ch swyddfa a chytuno y byddwch yn bresennol ddydd Llun 24 Medi rhwng 15.00 a 17.00 (caiff yr amser ei gadarnhau'n nes at y dyddiad). Cynhelir y cyfarfod yn y Senedd. Mae croeso i chi ddod â dau uwch-swyddog a byddwn yn ddiolchgar os gallwch roi gwybod i Glercod y Pwyllgor beth yw eu henwau a'u rolau drwy anfon e-bost at: SeneddArchwilio@Cynulliad.Cymru

Yn gywir,

**Nick Ramsay AC**
**Cadeirydd**